# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
# GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014
(Pennod 2)

## Yr ardal a elwir “Tref Bae Colwyn” ym Mwrdeistref Sirol Conwy

Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Tref Bae Colwyn – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2026.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (“y Cyngor”), yn hapus bod yr amodau a nodir yn Adran 59(2) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (“y Ddeddf”) wedi eu bodloni mewn perthynas â’r ardaloedd o fannau cyhoeddus yn yr ardal gyfyngedig a ddangosir ar y map atodedig, dan yr enw Canol Tref Bae Colwyn, a bod gweithgareddau a gynhaliwyd mewn man cyhoeddus o fewn ardal yr awdurdod wedi achosi trosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal leol. Mae’r gweithgareddau hyn wedi cael effaith niweidiol, neu maent yn debygol o gael effaith niweidiol, ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal leol, a’r bobl hynny sy’n ymweld â’r ardal fel lleoliad twristiaeth. Mae’r Cyngor hefyd yn fodlon bod effaith, neu effaith debygol, y gweithgareddau yn ddi-baid neu’n barhaus, neu’n debygol o fod felly. Yn ogystal, mae’r gweithgareddau hyn yn afresymol ac yn cyfiawnhau’r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn, ac mae, dan yr holl amgylchiadau, yn fuddiol gwneud y Gorchymyn er mwyn lleihau trosedd a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus.

Mae’r Cyngor, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 59 y Ddeddf ac o dan bob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y gorchymyn a ganlyn:

**a.** **Ni chaiff unrhyw un yfed alcohol yn yr ardal gyfyngedig.**

**b.** **Ni chaiff unrhyw un yn yr ardal gyfyngedig yfed alcohol na gwrthod rhoi’r gorau i yfed alcohol, na gwrthod ildio unrhyw gynwysyddion (boed wedi eu selio neu heb eu selio) y credir eu bod yn cynnwys alcohol, pan fo Swyddog Heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gofyn i’r unigolyn wneud hynny.**

**c.** **Gwaherddir unrhyw unigolyn sy’n cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag bod yn yr ardal gyfyngedig ar ôl i Swyddog Heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ofyn i’r unigolyn adael yr ardal gyfyngedig, ac ni ddylai ddychwelyd am gyfnod a nodir gan y Swyddog hwnnw, a fydd hyd at 48 awr.**

**Bydd unrhyw un sy’n peidio â chydymffurfio, heb esgus rhesymol, â gofyniad Swyddog Heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel y nodir uchod, yn torri’r Gorchymyn hwn ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol neu i Rybudd Cosb Benodedig hyd at £100.**

Daw’r Gorchymyn yn weithredol ar 31st March 2026 a daw i rym am gyfnod o 3 blynedd wedi hynny, oni bai y caiff ei ymestyn gan Orchmynion pellach o dan bwerau statudol y Cyngor.

Os bydd unrhyw un â diddordeb yn gwneud cais i gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn neu gynnwys unrhyw waharddiadau neu ofynion penodol a osodir gan y Gorchymyn, neu na chydymffurfiwyd â gofyniad yn y Ddeddf, gall ef neu hi wneud cais i’r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o’r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn.

Dyddiedig 24 Chwefror 2026



…………………………………………………
Stephanie Robbins (Pennaeth y Gwasanaeth – Diogelwch Cymunedol)